



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

Tystysgrif Ôl-raddedig / Diploma Ôl- raddedig / M.Sc. Diogelwch, Iechyd a Lles Galwedigaethol

YSGOL CHWARAEON A GWYDDORAU IECHYD

GWYBODAETH CYN-YMRESTRU 2018/2019



Achredwyd gan IOSH (*Institute of Occupational Safety and Health*)

CYNNWYS

1. Gwybodaeth gyffredinol
2. Ymrestru a chynefino â'r rhaglen
3. Cyflwyniad i'r sesiynau sgiliau academiaidd
4. Gwybodaeth am y rhaglen
5. Strwythur a threfn y rhaglen
6. Trosolwg o'r modiwlau
7. Dyddiadau'r tymhorau (2018/2019)
8. Cysylltiadau

Cyfarwyddwr y Rhaglen
Mr Stuart Scott

Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Rhodfa'r Gorllewin
Llandaf
Caerdydd
CF5 2YB
Ffôn: 029 20 416872
Ebost: sscott@cardiffmet.ac.uk

Roedd y wybodaeth yn gywir wrth fynd i'r wasg

1. GWYBODAETH GYFFREDINOL

Teitl y Dyfarniad:	MSc Diogelwch, Iechyd a Lles Galwedigaethol PgCert Diogelwch, Iechyd a Lles Galwedigaethol PgDip Diogelwch, Iechyd a Lles Galwedigaethol
Corff Dilysu:	Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Math o Raglen:	Modiwlaid
Hyd arferol:	Amser llawn (1 – 2 flynedd) Rhan-amser (2 – 3 blynedd) Yn cynnwys cwblhau pob credyd a addysgir a phrosiect ymchwil a fydd yn parhau am 6 – 12 mis (gellir cwblhau prosiectau ymchwil yn y DU neu y tu allan i'r DU).
Ysgol:	Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd
Deon yr Ysgol:	Yr Athro Leigh Robinson
Cyfarwyddwr y Rhaglen:	Mr Stuart Scott

2. YMRESTRU A CHYNEFINO Â'R RHAGLEN

Ymunwch â ni ar gyfer cynefino â'r rhaglen, dod yn gyfarwydd â'r campws a chroeso gan y tîm ar ddechrau'r tymor.

Cynhelir y cyfnod cynefino ar Ddydd Mawrth, Medi 18^{fed}, Campws Llandaf – Ystafell O215

- 2:00pm – 3:30pm – Cyflwyniad i'r Rhaglen
- 3:30pm – 4.00pm – Casglu cerdyn adnabod ac egwyl
- 4:30pm – 5:30pm – Taith o gwmpas y campws a chynefino â'r Llyfrgell
- 5:30pm – 7:00pm – Digwyddiad Croeso'r Tîm

Bydd y sesiwn yn cynnwys manylion am ddigwyddiadau ar draws y Brifysgol a fydd ar gael hefyd yn ystod yr Wythnos Gynefino.

Noder: Mae'r amserlen uchod ar gyfer gwybodaeth yn unig a gallai gael ei newid ychydig o fewn yr amser 2.00pm – 7.00pm.

YMRESTRU AR-LEIN

YMRESTRU AR-LEIN

Mae ymrestru yn broses hanfodol a fydd yn cadarnhau eich statws yn fyfyrwr Met Caerdydd ac yn rhoi mynediad i chi i systemau TG Met Caerdydd, gan gynnwys Moodle (llwyfan dysgu Met Caerdydd), talu ffioedd ac, yn bwysig, bydd yn eich galluogi i gael eich MetGerdyn.

Gallwch gwblhau'r broses Hunan-Ymrestru ar-lein oddi ar unrhyw gyfrifiadur drwy system Hunan Wasanaeth Met Caerdydd pan fyddwch wedi derbyn eich **Ebost Ymrestru**.

Pan gewch eich Ebost Ymrestru, dechreuwch y broses hunan-ymrestru drwy fynd i'r tudalen gwe www.cardiffmet.ac.uk/enrolment a dilyn y canllawiau cam-wrth-gam a fydd wedi'u darparu. Er mwyn cael mynediad i'r adran Ymrestru ar system Hunan Wasanaeth Met Caerdydd, bydd angen i chi fewngofnodi gydag enw defnyddiwr a chyfrinair. Rhowch yr un enw defnyddiwr a'r cyfrinair i mewn ag y gwnaethoch eu defnyddio yn wreiddiol er mwyn ymgeisio. Mae canllawiau wedi'u darparu os byddwch wedi anghofio'r enw defnyddiwr/ cyfrinair. Noder: er mwyn Hunan-Ymrestru, rhaid i'ch statws gyda Met Caerdydd fod yn **UF (Pendant Di-amod)** h.y. rhaid boddhau pob amod a rhaid bod wedi derbyn lle.

Byddwch yn gallu cael Cerdyn Adnabod y Brifysgol yn ystod y rhaglen gynefino (gweler uchod).

3. CYFLWYNIAD I'R SESIYNAU SGILIAU ACADEMAIDD

Yn ogystal â'r cyflwyniad i'r rhaglen, rydym yn eich gwahodd i gwblhau wythnos o sesiynau sgiliau academaidd cyn dechrau'r darlithoedd. Mae'r sesiynau, sydd wedi'u cynllunio i helpu i ddatblygu sgiliau academaidd a gwella hyder a'r gallu i astudio ar lefel Meistr, yn offeryn amhrisiadwy ar gyfer y bobl hynny sy'n dychwelyd i'r byd academaidd a'r bobl hynny sydd wedi dod i mewn drwy'r llwybr profiad proffesiynol.

Mae amserlen gywir y sesiynau eto i'w chadarnhau ond mae'n debygol y cynhelir y sesiynau:

- rhwng 9am a 4pm ar Ddydd Mawrth, Medi 25^{ain} 2018
- rhwng 9am a 4pm ar Ddydd Iau, Medi 27^{ain} 2018
- rhwng 9am a 4pm ar Ddydd Gwener, Medi 28^{ain} 2018

Bydd y sesiynau'n gweithio tuag at gyflwyno traethawd ymarfer* ar neu tua Dydd Llun, Hydref 1^{af} 2018. Fel arfer mae'r sesiynau'n orfodol ar gyfer:

- pob myfyriwr rhyngwladol
- myfyrwyr sydd heb radd neu sydd heb astudio o'r blaen mewn prifysgol
- myfyrwyr y mae eu cymhwyster gradd blaenorol yn fwy na 5 mlwydd oed

Ar gyfer pob myfyriwr arall, mae'r sesiynau'n opsiynol.

*Bydd gofyn i bob myfyriwr, gan gynnwys y rheiny nad oes angen iddyn nhw ddod i'r sesiynau academaidd, gwblhau'r aseiniad ymarfer.

4. GWYBODAETH AM Y RHAGLEN

Nodau addysgol y rhaglen

Ein nod, a ninnau'n dŷm y rhaglen, yw eich galluogi i ddatblygu dulliau cyfannol ar gyfer gwella iechyd a diogelwch y sefydliad drwy wella ymgysylltiad a lles y gweithwyr.

Mae ein rhaglen wedi'i dylunio i wella eich dealltwriaeth a'ch defnydd presennol ar reoli iechyd a diogelwch galwedigaethol drwy eich galluogi i ddatblygu dull mwy cyfannol ar gyfer dylanwadu ar berfformiad y gweithwyr a'r sefydliad drwy gysyniadau cyfoes sy'n ymwneud ag ymgysylltiad a lles y gweithwyr.

Deilliannau'r rhaglen

Wedi cwblhau'r rhaglen, dylech fod yn gallu:

1. Gwerthuso llenyddiaeth i gael tystiolaeth briodol i oleuo ymarfer academaidd a phroffesiynol
2. Archwilio a gwerthuso'r effaith y bydd gwaith yn ei chael ar iechyd a lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol gweithwyr
3. Archwilio a gwerthuso'r dulliau ar gyfer gwella iechyd a lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol gweithwyr.
4. Gwerthuso'n feirniadol y ffactorau sy'n dylanwadu ar y canfyddiad, y cyfathrebu a'r ymateb i'r risgiau i iechyd a lles
5. Gwerthuso effeithiolrwydd model rheoli ac asesu risgiau o ran gwella diogelwch, iechyd a lles yn y gweithle
6. Cymharu a chyferbynnu dulliau ar gyfer dylanwadu ar ymddygiad gweithwyr a gwerthuso eu heffeithiolrwydd yn gwella perfformiad diogelwch, iechyd a lles yn y gweithle
7. Gwerthuso effeithiolrwydd systemau a phrosesau rheoli diogelwch, iechyd a lles drwy werthuso deilliannau perfformiad unigol a sefydliadol
8. Datblygu dull cyfannol i ddatblygu a gweithredu strategaethau ac ymyriadau diogelwch, iechyd a lles galwedigaethol
9. Datblygu strategaethau ar gyfer gwella ymgysylltiad a lles y gweithwyr a gwerthuso'n feirniadol eu dylanwad ar ddeilliannau'r sefydliad
10. Dangos y gallu i ddylunio, cynllunio, ymgymryd â chasgliadau ymchwil mewn maes astudio perthnasol, a'u cyflwyno

5. STRWYTHUR A THREFN Y RHAGLEN

Strwythurau a nodweddion y rhaglen, unedau'r cwricwlwm (modiwlau), credydau a gofynion y dyfarniadau

Lefel 7 – Strwythur y modiwlau ar gyfer myfyrwyr a fydd yn dechrau ym mis Medi						
Cod y Modiwl	Teitl y Modiwl	Tymor	Credydau	Modiwl a rennir	Ar gael yn Gymraeg	Ar gael fel cwrs byr
OSH7009	Assessing the Impact of Work on Health	1	10	Na	Na	le
OSH7010	Approaches to Improving Worker Safety, Health and Wellbeing	1	10	Na	Na	le
OSH7011	Influencing Individual and Organisational Behaviour	1	10	Na	Na	le
OSH7012	Evaluating Safety, Health and Wellbeing Performance	1	20	Na	Na	le
SHS7000	Applied Research Methods & Design	2	20	le	Na	Na
APH7001	Health Risk Perception and Communication	2	10	le	Na	le
OSH7013	Principles and Practice of Risk Assessment	3	10	Na	Na	le
OSH7014	Developing Safety, Health and Wellbeing Strategies & Interventions	2	10	Na	Na	le
OSH7015	Worker Engagement and Well-being	2	20	Na	Na	le
<i>Dyfarniad – Tystysgrif Ôl-raddedig</i>			60	<i>Unrhyw fodiwlau a addysgir</i>		
<i>Dyfarniad – Diploma Ôl-raddedig</i>			120	<i>Pob modiwl a addysgir</i>		
Cod Modiwl Traethawd / Prosiect	Teitl y Modiwl	Tymor*	Credydau	Modiwl a rennir	Ar gael yn Gymraeg?	Cwrs Byr
OSH7016	Prosiect Ymchwil	1 & 2	60	Na	Na	Na
<i>Dyfarniad – Gradd Meistr</i>			180			
Dyfarniad terfynol – MSc Diogelwch, Iechyd a Lles Galwedigaethol			180			

6. TROSOLWG O'R MODIWLAU

- **OSH7009 Assessing the Impact of Work on Health (10 Credyd)** Nod y modiwl yw gwerthuso dylanwadau cadarnhaol a negyddol sydd gan y gweithle ar iechyd a diogelwch gweithwyr a gwerthuso effaith materion newydd sy'n ymwneud â lles.
- **OSH7010 Approaches to Improving Worker Safety, Health and Wellbeing (10 Credyd):** Nod y modiwl hwn yw asesu'n feirniadol gwmpas rhaglenni diogelwch, iechyd a lles yn y gweithle a gwerthuso'r dystiolaeth dros greu dull hollgynhwysol er mwyn gwella diogelwch, iechyd a lles yn y gwaith.
- **APH7001 Health Risk Perception & Communication (10 credyd):** Nod y modiwl yw galluogi myfyrwyr i werthuso'n feirniadol effaith ffactorau seicolegol a seicogymdeithasol ar ganfyddiad a chyfathrebu ac ymateb i ystod o risgiau a bygythiadau i iechyd a lles.
- **OSH7013 Principles and Practice of Risk Assessment (10 Credyd):** Nod y modiwl hwn yw galluogi'r myfyrwyr i archwilio dulliau damcaniaethol ac ymarferol o ran asesu risgiau, adnabod peryglon a rheoli risgiau a gwerthuso eu heffaith ar wella perfformiad diogelwch, iechyd a lles yn y gweithle.
- **SHS7000 Applied Research Methods and Design (20 credyd):** Datblygu'r sgiliau ymchwil ansoddol a meintiol sydd eu hangen er mwyn ymgymryd ag ymchwil a gwerthuso ymyriadau ac ymarfer o ddydd i ddydd.
- **OSH7011 Influencing Individual and Organisational Behaviour (10 Credyd):** Nod y modiwl yw galluogi myfyrwyr i gymharu a chyferbynnu dulliau i ddylanwadu ar ymddygiad gweithwyr a gwerthuso pa mor effeithiol ydynt yn gwella perfformiad iechyd, diogelwch a lles yn y gweithle.
- **OSH7012 Evaluating Safety, Health and Wellbeing Performance (10 Credyd):** Nod y modiwl yw galluogi'r myfyrwyr i werthuso a gwella effeithiolrwydd rhaglenni iechyd, diogelwch a lles drwy werthuso deilliannau perfformiad unigolion a'r sefydliad.
- **OSH7014 Developing Safety, Health and Wellbeing Strategies & Interventions (20 Credyd):** Nod y modiwl hwn yw galluogi'r myfyrwyr i lunio ymateb strategol a dull aml-ddisgyblaethol i wella iechyd, diogelwch a lles yn y gweithle.
- **OSH7015 Worker Engagement and Wellbeing (20 Credyd):** Nod y modiwl hwn yw galluogi'r myfyrwyr i ddatblygu strategaethau ar gyfer gwella ymgysylltiad a lles y gweithwyr a gwerthuso'n feirniadol eu dylanwad ar ddeilliannau'r sefydliad.

Modiwl ymchwil dan oruchwyliaeth

- **OSH7016 Prosiect Ymchwil/Research Project (60 credyd):** Nod y prosiect ymchwil yw galluogi myfyrwyr i ddangos y gallu i ddylunio, cynllunio ac ymgymryd ag ymchwil mewn maes perthnasol, a chyflwyno'r casgliadau.

***Noder:** Dylai'r myfyrwyr a fydd am gwblhau'r cwrs mewn 12 mis ymrestru ar y modiwl Prosiect Ymchwil ar ddechrau'r rhaglen. Dylai'r myfyrwyr sydd am gwblhau'r rhaglen dros fwy o amser gael gair â Chyfarwyddwr y Rhaglen i drafod ymrestru ar y modiwl.*

7. DYDDIADAU'R TYMHORAU AR GYFER AMSERLENNU (2018/2019)

PRIFYSGOL METROPOLITAN CAERDYDD			
DYDDIADAU'R TYMHORAU (2018/2019)			
PATRYMAU'R WYTHNOSAU ADDYSGU			
Wythnos yn dechrau:	W rhif	Fframwaith y tymor	Amserlen nodweddiadol y darlithoedd
			Croesawu'r myfyrwyr rhyngwladol yn y maes awyr
17 Medi 2018	8	WYTHNOS GYNEFINO	Cynefino â'r Rhaglen – grŵp mis Medi
24 Medi 2018	9	Dechrau Tr yr Hydref	Wythnos sgiliau academiaidd MSc – grŵp mis Medi
01 Hydref 2018	10		Myfyrwyr rhan-amser – Darlithoedd Dydd Mawrth, 4:30pm – 7.00pm
08 Hydref 2018	11		
15 Hydref 2018	12		
22 Hydref 2018	13		
29 Hydref 2018	14		
05 Tachwedd 2018	15		
12 Tachwedd 2018	16		
19 Tachwedd 2018	17		Myfyrwyr amser llawn – Darlithoedd Dydd Mawrth a Dydd Iau, 4:30pm – 7.00pm
26 Tachwedd 2018	18		
03 Rhagfyr 2018	19		
10 Rhagfyr 2018	20	Diwedd tymor yr Hydref	Pob myfyriwr – Un sesiwn ar Ddydd Sadwrn, 9:30am – 4.00pm, Hydref (dyddiad ac amseroedd i'w cadarnhau)
17 Rhagfyr 2018	21	GWYLIAU'R NADOLIG	
24 Rhagfyr 2018	22	GWYLIAU'R NADOLIG	
31 Rhagfyr 2018	23	GWYLIAU'R NADOLIG	
07 Ionawr 2019	24	GWYLIAU'R NADOLIG	
14 Ionawr 2019	25	Dechrau Tr y Gwanwyn	
21 Ionawr 2019	26		Croesawu'r myfyrwyr rhyngwladol yn y maes awyr
28 Ionawr 2019	27		Cynefino â'r Rhaglen – grŵp mis Ionawr
04 Chwefror 2019	28		Wythnos sgiliau academiaidd MSc – grŵp mis Ionawr
11 Chwefror 2019	29		Myfyrwyr rhan-amser – Darlithoedd Dydd Mawrth, 4:30pm – 7.00pm
18 Chwefror 2019	30		
25 Chwefror 2019	31		
04 Mawrth 2019	32		Myfyrwyr amser llawn – Darlithoedd Dydd Mawrth a Dydd Iau, 4:30pm – 7.00pm a dau sesiwn ar Ddydd Gwener 9.30-4.00 (Wythnos 30/34)
11 Mawrth 2019	33		
18 Mawrth 2019	34		
25 Mawrth 2019	35	Diwedd Tr y Gwanwyn	Pob myfyriwr – Un sesiwn ar Ddydd Sadwrn, 9:30am – 4.00pm, Hydref (dyddiad ac amseroedd i'w cadarnhau)
01 Ebrill 2019	36	GWYLIAU'R PASG	
08 Ebrill 2019	37	GWYLIAU'R PASG	
15 Ebrill 2019	38	GWYLIAU'R PASG	
22 Ebrill 2019*	39	GWYLIAU'R PASG	
29 Ebrill 2019	40	Dechrau Tymor yr Haf	Myfyrwyr amser llawn a rhan-amser – Darlithoedd ar Ddydd Mawrth 4:30pm–7.00pm
06 Mai 2019*	41		
13 Mai 2019	42		
20 Mai 2019	43		
27 Mai 2019*	44		
03 Mehefin 2019	45		
10 Mehefin 2019	46	Diwedd Tymor yr Haf	

Amserlen enghreifftiol yw hon ac efallai bydd yn newid. Bydd amserlen fanwl lawn ar gael ar ddechrau'r tymor.

MANYLION CYSWLLT

Os oes gennych unrhyw bryderon neu gwestiynau cyn dechrau'r cwrs, cysylltwch â

Stuart Scott (sscott@cardiffmet.ac.uk neu 029 2041 6872)

Dolenni defnyddiol

- [Y Llawlyfr Academaidd](#)
- [Llety](#)
- [Costau Ychwanegol](#)

Costau ychwanegol yw unrhyw dreuliau gorfodol neu opsiynol, ar ben y ffioedd dysgu, y bydd angen eu talu gan fyfyrwyr iddyn nhw gael cymryd rhan lawn a chwblhau eu hastudiaethau.
- [Polisi Derbyn](#)
- [Cysgodfa Beiciau](#)

Wedi i chi gyrraedd y campws a chasglu eich cerdyn adnabod byddwch yn gallu gofyn am fynediad i'r gwahanol gysgodfeydd beiciau o gwmpas y campysau.
- [Mapiau'r Campws a'r MetWibiwr](#)
- [Newyddion Met Caerdydd](#)
- [Chwaraeon a Chyfleusterau Met Caerdydd](#)
- [Undeb Myfyrwyr Met Caerdydd](#) *gan gynnwys gwybodaeth a breichledau i'r myfyrwyr glas*
- [Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd](#)

Os bydd eich rhaglen yn golygu y bydd rhaid i chi ddod i gysylltiad â phlant neu â phobl ifanc neu bobl fregus, bydd rhaid i chi fod wedi cael gwiriad cofnodion troseddol yn rhan o'ch cynnig.
- [Iechyd Galwedigaethol](#)

Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch bresennol, bydd gofyn i bob myfyriwr a fydd yn cymryd rhaglen sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn Ysgol Gwyddorau Iechyd Caerdydd (â chydran lleoliad clinigol yn rhan o'r rhaglen), gymryd rhan mewn asesiad Sgrinio Iechyd Galwedigaethol gorfodol. Yn ogystal, bydd yn ofynnol bod rhai cyrsiau'n cydymffurfio â rhaglen frechu ac imiwneiddio'r Adran Iechyd.
- [Cyllid Myfyrwyr](#)

I gael gwybodaeth ar ffioedd dysgu, disgownt cyn-fyfyrwyr, benthyciadau ac ysgoloriaethau, yn ogystal â gwybodaeth gyswllt ar gyfer Gwasanaeth Cynghori Ariannol y Myfyrwyr.
- [Llawlyfr y Myfyrwyr](#)
- [Gwasanaethau Myfyrwyr](#)

I gael cymorth yn ystod eich amser gyda ni o ran eich iechyd, lles, dull byw a gyrfa yn y dyfodol. Y nod yw rhoi'r holl gymorth sydd ei angen arnoch i chi er mwyn sicrhau y bydd eich astudiaethau mor bleserus a llwyddiannus â phosib. Bydd y Gwasanaethau hefyd yn cynnwys cynghori personol, anabled a'r gaplaniaeth.
- [Dyddiadau'r Tymhorau](#)
- [Rhith Deithiau](#)

Mynnwch olwg arall o gwmpas ein campws a'n cyfleusterau gyda'n rhith deithiau tywys